CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# GRANTIAU CYHOEDDI CYMRAEG

# CANLLAWIAU AC AMODAU

# GRANTIAU CYHOEDDI LLYFRAU UNIGOL

## A CANLLAWIAU

### 1 AMCANION

Amcan y Cynllun Grantiau Cyhoeddi Llyfrau Unigol (ynghyd â'r Cynllun Grantiau Rhaglen) yw cynnig cymorth i gyhoeddwyr gyhoeddi cyfrolau Cymraeg o safon, yn cynnwys llyfrau hamdden a llyfrau llenyddol, ar gyfer oedolion a phlant. Mae'r gronfa hon yn agored i gyhoeddwyr nad ydyn nhw'n gyhoeddwyr rhaglen i gyfrannu at yr amrywiaeth o lyfrau poblogaidd a ddarperir. Dyma'r unig gronfa sydd ar gael i bob cyhoeddwr fentro darparu llyfrau mwy cyfyng eu hapêl.

### 2 CYMHWYSTER

#### 2.1 Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?

Mae'r cynllun yn agored i gyhoeddwyr

- sy'n cyhoeddi'n rheolaidd yn Gymraeg
- sydd â'r adnoddau i ddewis, golygu, cyhoeddi a marchnata eu cynnyrch yn effeithiol
- y mae eu cynnyrch ar gael mewn siopau trwy Gymru ar y telerau masnachol cydnabyddedig.

Gellir ystyried ceisiadau gan gyhoeddwyr newydd, ond rhaid iddynt ddangos eu gallu i gwrdd â'r gofynion uchod a chyflwyno'r deunydd ychwanegol a nodir o dan *Sut a Phryd i Ymgeisio* isod.

Ni dderbynnir ceisiadau gan awduron na chyhoeddwyr sy'n dymuno cyhoeddi eu gwaith eu hunain yn unig, neu'n bennaf (gweler **Gwybodaeth i Awduron,** https://llyfrau.cymru/awduron/hunangyhoeddi).

Dan amgylchiadau eithriadol, gellir ystyried ceisiadau gan gyhoeddwyr sefydledig, o Gymru neu tu hwnt, nad ydynt yn cyhoeddi'n gyson yn Gymraeg. Byddai angen cyflwyno achos cryf dros y cyhoeddiad a sicrwydd bod ganddynt awduron a golygyddion Cymraeg cymwys a phrofiadol i weithio arno.

#### 2.2 Pa lyfrau sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth?

- Mae'r cynllun yn cefnogi ystod eang o lyfrau i oedolion a phlant, gan gynnwys llyfrau hamdden, llyfrau ffeithiol, cofiannau, ffuglen o bob math, barddoniaeth, dramâu, a llyfrau am lenyddiaeth, diwylliant a hanes.
- **Eithriadau**. Nid yw'r cynllun yn ariannu gwerslyfrau, llyfrau gramadeg ffurfiol, traethodau ymchwil heb eu hailysgrifennu, llyfrau cain a llyfrau o ddiddordeb lleol iawn.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

- **Maint**. Fel arfer, disgwylir i bob llyfr, ac eithrio llyfrau plant bach, gynnwys o leiaf 48 tt. o destun. Dylid trafod eithriadau i'r rheol hon â'r Adran Datblygu Cyhoeddi cyn cyflwyno cais.
- **Llyfrau Hamdden**. Ar gyfer llyfrau hamdden, dylid rhagweld gwerthiant o o leiaf 400 i 500 o fewn 18 mis cyn y gellir ystyried cais am grant.
- **Llyfrau Llenyddol**. Yn achos llyfrau llenyddol, cyfieithiadau a llyfrau eraill mwy cyfyng eu hapêl, rhaid i'r cyhoeddwr ddangos bod y rhediad argraffu yn caniatáu i'r llyfr gyrraedd y farchnad fwyaf posibl.
- **Llyfrau Dwyieithog.** Mae'n bosib rhoi grant i ran Gymraeg llyfr dwyieithog, ar yr amod ei bod yn uned sylweddol, hunangynhaliol, o fewn y llyfr neu fod y llyfr yn gyfan gwbl ddwyieithog
- **Adargraffiadau**. Cynigir grantiau i adargraffiadau drwy'r Grant Adargraffu y gellir gwneud cais amdano unwaith bob blwyddyn. Fodd bynnag, ni ellir rhoi grant i adargraffiad o lyfr a gafodd grant eisoes o fewn y flwyddyn flaenorol.
- **Cloriau caled**. Gellir gwneud cais arbennig i'r gronfa hon am gymorth gyda chloriau caled. Gellir gwneud cais am hyd at £750 i rwymo cyfrol boblogaidd, megis cyfrol bwrdd coffi, mewn clawr caled os oes modd dangos bod hynny'n hanfodol i'r gyfrol honno elwa'n sylweddol ar y buddsoddiad. Dylid dangos y gwahaniaeth fyddai'r buddsoddiad yn eu wneud i werthiant ac elw'r gyfrol yn ogystal â'i hymddangosiad.

Lle bo ansicrwydd ynglŷn â chymhwyster teitlau arfaethedig, gofynnir i'r cyhoeddwyr drafod eu prosiectau gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi cyn iddynt gyflwyno cais.

## 3 MEINI PRAWF A BLAENORIAETHAU AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Blaenoriaethir:

- hunangofiannau poblogaidd, a hunangofiannau sy'n cynnig amrywiad ar y ffurf gronolegol draddodiadol, gan roi ystyriaeth yn benodol i hunangofiannau gan ferched yn ogystal â dynion o gefndiroedd ethnig amrywiol.
- llyfrau poblogaidd sy'n gynrychioliadol o ran amrywiaeth cymdeithas a chydag ystyriaeth wedi ei roi i leisio profiadau bywyd awduron du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, yn ogystal ag eraill gyda'r priodoleddau a amddiffynnir yn neddf Cydraddoldeb 2010.

Cloriennir ceisiadau yn ôl y meini prawf canlynol:

- safon y cynnwys: disgwylir i bob llyfr a gefnogir fod yn safonol*;*
- safon y diwyg: disgwylir i bob llyfr a gefnogir fod o ansawdd proffesiynol o ran argraffu, dylunio, rhwymo, ayyb.;
- gallu'r cyhoeddwr i olygu, marchnata, a dosbarthu'r llyfr trwy Gymru gyfan;
- gallu'r cyhoeddwr i gadw at amserlen gyhoeddi;
- y galw am y llyfr: yn achos llyfrau hamdden, yn enwedig, ystyrir sut y mae'r llyfr a gynigir yn debyg o lenwi bwlch yn y farchnad. Yn achos llyfrau mwy cyfyng eu marchnad, gan gynnwys teitlau llenyddol, y mae'n bwysig dangos bod y llyfr yn debyg o gyrraedd ei lawn botensial o ran gwerthiant;
- rhediad argraffu: rhaid cyhoeddi digon i sicrhau bod stoc ar gael ar gyfer blwyddyn o leiaf ac os gwneir cyfres o rediadau argraffu, dylai'r argraffiad cyntaf fod yn ddigonol i ddiwallu'r farchnad am o leiaf dri mis ar ôl cyhoeddi.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

**Bydd cystadlu brwd am y grantiau hyn: y mae'n bwysig, felly, bod pob ymgeisydd yn dadlau ei achos yn y dull llawnaf posibl.**

## 4 Y GRANT

- Fel arfer, bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn ceisio pontio'r bwlch rhwng cost cyhoeddi llyfr a'r incwm tebygol o werthiant yn ystod y deunaw mis cyntaf. Yn anaml iawn y cynigir grant o fwy na £3,300, a chedwir yr hawl i wneud cyfraniad yn unig yn unol â dymuniad yr Is-bwyllgor.
- Nid pwrpas y grant hwn yw talu am orbenion cyffredinol y cwmni, fodd bynnag gellir gwneud cyfraniad bychan tuag at gostau cyhoeddi, marchnata a chyfieithu achlysurol. [Gweler 7 isod]
- Rhaid i'r Cyngor Llyfrau gael sicrwydd bod gan y cyhoeddwr yr adnoddau gweinyddol ac ariannol i ymgymryd â'r teitlau y cyflwynir ceisiadau amdanynt cyn dyfarnu'r grant.

## 5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

- Rhaid ymgeisio ar y ffurflen gais, sydd i'w chael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Rhaid anfon teipysgrif o'r llyfr ynghyd â'r ffurflen gais. (Nid oes raid iddi fod wedi'i golygu'n derfynol na'i phrawf ddarllen ond dylai'r cyhoeddwr fod yn fodlon bod cynnwys y gwaith a gyflwynir yn adlewyrchiad teg o'r gwaith arfaethedig.) Ni dderbynnir llawysgrifau.
- Yn achos cyfieithiadau, dylid anfon copi o'r fersiwn gwreiddiol yn ogystal â sampl o'r cyfieithiad, gyda'r cais.
- Yn achos argraffiadau newydd ac adargraffiadau dylid anfon copi o'r argraffiad diweddaraf gyda'r cais.
- Yn achos rhai sy'n bwriadu dechrau cyhoeddi, rhaid cyflwyno cais am ddau lyfr, yn cynnwys teipysgrifau cyflawn, ynghyd â chynlluniau pendant ar gyfer o leiaf un llyfr arall.
- Ystyrir ceisiadau yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor sy'n trafod ceisiadau yn benodol. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd. Hysbysir y cyhoeddwyr o'r union ddyddiadau ymlaen llaw a rhoddir gwybodaeth ar wefan y Cyngor Llyfrau yn ogystal.
- Mewn achosion eithriadol gellir ystyried ceisiadau rhwng cyfarfodydd a'u cadarnhau yn y cyfarfod ffurfiol canlynol.

## 6 LLENWI'R FFURFLEN

**Mae'r pwyntiau canlynol yn berthnasol wrth lenwi'r ffurflen.**

- **Dyddiad cyhoeddi.** Noder dyddiad cyhoeddi realistig. Os bydd y dyddiad cyhoeddi'n newid, bydd disgwyl i'r cyhoeddwr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Adran Datblygu Cyhoeddi yn brydlon. Bydd y Swyddog Datblygu Cyhoeddi (Cymraeg) yn cysylltu'n rheolaidd i drafod y dyddiadau cyhoeddi cyfredol. Dylid sicrhau digon o amser rhwng y cais a'r dyddiad cyhoeddi i baratoi'r llyfr ar gyfer ei gyhoeddi a'i farchnata'n llwyddiannus. Gall hyn fod hyd at 18 mis ymlaen llaw.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

- **Pris gwerthu.** Dylai pris gwerthu llyfr fod y pris uchaf na fydd yn effeithio'n andwyol ar y gwerthiant. Os daw cais i mewn â phris rhy isel, fe seilir y grant yn aml ar bris uwch.Yn achos cyfieithiadau, mae'n bwysig bod y cyhoeddwr yn ystyried pris y fersiwn Saesneg wrth bennu pris y fersiwn Cymraeg.
- **Nawdd arall.** Os yw'n bosib cael nawdd o ffynhonnell arall yn ychwanegol at nawdd y Cyngor Llyfrau, fe ddylid gwneud hynny. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos llyfr lle mae'r costau'n sylweddol, gan fod terfyn i'r grant y gellir ei roi i unrhyw un cais.
- **Disgrifiad a rhesymau dros gyhoeddi.** Dylid nodi at bwy mae'r llyfr wedi'i anelu, a beth yw'r galw tebygol amdano. Croesewir rhagor o wybodaeth ar dudalen ar wahân.
- **Costau cynhyrchu a dylunio.** Gosoder y costau allan mor eglur â phosibl. Gorau po fwyaf o fanylion a roddir am y costau; ni ellir disgwyl i'r Cyngor ganiatáu costau ar gyfer eitemau nas nodwyd yn glir. Gyda lluniau a ffotograffau, cofier nodi'r nifer, sawl lliw sydd ynddynt, faint o dudalennau lliw sydd eu hangen, ayyb.
- **Costau awdurol.** Wrth weithio allan y grant, caniateir breindal ar dri-chwarter yr argraffiad cyflawn yn y costau.
- **Costau cyhoeddi sylfaenol.** Caniateir swm o £200 y teitl ar gyfer costau cyhoeddi sylfaenol a £400 at gostau marchnata sylfaenol. Gwneir hyn yn achos llyfrau newydd ac argraffiadau newydd yn unig, ond nid yn achos adargraffiadau.
- **Incwm.** Gofynnir i gyhoeddwyr amcanu incwm gwerthiant y llyfr dros ddeunaw mis, trwy amrywiol ddulliau (gwerthiant uniongyrchol, trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau ayyb.)

## 7 DYFARNU GRANTIAU

- Rhaid dyfarnu grant cyn cyhoeddi'r llyfr.
- Anfonir teipysgrifau at ddarllenwyr annibynnol, am adroddiad. Yna cyflwynir y ceisiadau ynghyd â'r adroddiad i sylw'r Is-bwyllgor.
- Bydd gan aelodau'r Is-bwyllgor fynediad at y teipysgrifau er mwyn darllen y gwaith drostyn eu hunain ac yn achos llyfrau byrion gellir hepgor adroddiad annibynnol a gofyn am farn yr Is-bwyllgor yn unig.
- Wrth baratoi'r papurau ar gyfer yr Is-bwyllgor, edrychir ar amcangyfrifon ariannol y cyhoeddwr a'u cymhwyso os bernir bod angen.
- Gall yr Is-bwyllgor wneud un o chwe pheth:
  - caniatáu'r grant yn ddiamod (boed yn grant llawn neu'n gyfraniad),
  - caniatáu'r grant yn amodol,
  - caniatáu'r grant gydag argymhellion
  - gohirio cais a gofyn iddo gael ei ailgyflwyno ar ôl i'r cyhoeddwr ystyried sylwadau'r darllenydd allanol a/neu'r Is-bwyllgor,
  - ei wrthod
  - neu ei gyfeirio i noddwr arall.

- Os gwrthodir cais ar sail adroddiad, mae hawl gan y cyhoeddwr i ofyn am ail adroddiad; os yw'r ail adroddiad hefyd yn anffafriol nid oes modd dyfarnu grant.
- Mae'n bosibl i'r Cyngor ystyried cais mewn egwyddor, lle cyflwynir disgrifiad o lyfr (gyda rhan o'r deunydd, o bosib) ynghyd â bras amcangyfrifon ariannol. Nid yw caniatáu cais mewn egwyddor yn rhwymo'r Is-bwyllgor i gefnogi'r cais pan ddaw o'i flaen wedyn fel cais terfynol; yr hyn y mae'n ei olygu yw nad oes unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r cais cyn belled â bod y gwaith terfynol o safon dderbyniol a bod cyllideb yr Is-bwyllgor yn caniatáu ar y pryd.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

- Yn achos cyhoeddwyr nad ydynt yn argraffwyr eu hunain, fe ellir gofyn iddynt anfon o leiaf **ddau** amcangyfrif ar gyfer y gwaith argraffu a rhwymo gyda'r cais am grant.
- Os cynigir grant, gwneir hynny yn unol â'r amodau cyffredinol (Adran B isod), yn ogystal ag unrhyw amodau arbennig a bennir yn achos cais unigol. **Disgwylir i bob ymgeisydd ymrwymo i'w derbyn wrth gyflwyno cais.**

**8 TALU'R GRANTIAU**

Ni thelir grant nes cyhoeddi'r llyfr. Hawlir grant trwy anfon ffurflen hawlio a dylid nodi unrhyw newidiadau ers gwneud y cais gwreiddiol yn glir ar y ffurflen hawlio. Gall newidiadau effeithio ar y grant. Bydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn archebu copi o'r cyhoeddiad o stoc y cyhoeddwr yn y Ganolfan Ddosbarthu..

**9 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD**

Mae'r Cyngor Llyfrau'n gofyn am ffigurau gwerthiant ar gyfer pob llyfr sydd wedi derbyn grant ar ôl iddo fod ar werth am hyd at chwe mis, deunaw mis a thair blynedd. Bydd yn gofyn am y ffigurau hyn yn flynyddol ym mis Medi.

## B AMODAU CYFFREDINOL

1 Cynigir y grant ar sail yr wybodaeth sydd yn y cais, ac unrhyw ohebiaeth atodol. Bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i ailystyried neu ddiddymu'r grant a ddyfarnwyd mewn achosion lle nad yw'r gwaith cyhoeddedig yn cyfateb â'r manylion a roddwyd ar y ffurflen gais neu a gytunwyd fel arall.

2 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn grant gydymffurfio ag unrhyw amodau a gofynion ychwanegol a nodir yn y cynnig grant ffurfiol neu mewn unrhyw lythyr eglurhaol.

3 Dylid cynnwys y gydnabyddiaeth a ganlyn ym mhob llyfr y dyfarnwyd grant iddo: "Mae'r cyhoeddwr yn cydnabod cymorth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru". **Gellir hefyd ddefnyddio logo swyddogol y Cyngor sydd ar gael drwy ofyn i staff dylunio'r Cyngor**. Os na chydnabyddir y Cyngor yn y modd priodol, ceidw'r hawl i atal hyd at 10% o'r grant.

4 Ni ddylid defnyddio cydnabyddiaeth o'r grant hwn nac unrhyw gyfeiriadau eraill at y Cyngor mewn unrhyw ffordd i awgrymu fod y Cyngor yn cymryd neu'n derbyn cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti am ddyledion neu rwymedigaethau'r sawl sy'n derbyn y grant (gweler rhif 21).

5 Mae'n ofynnol i bob llyfr sy'n derbyn cymorth grant ddangos rhif ISBN 13 digid a chdd bar ar ei glawr.

6 Dylai'r wybodaeth gychwynnol am lyfr sy'n derbyn cymorth grant gyrraedd Swyddog Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau o leiaf chwe mis cyn cyhoeddi'r llyfr, yn ôl gofynion y Cyngor.

7 Dylai'r cyhoeddwr adolygu'r wybodaeth sydd ar Gwales am lyfrau sy'n cael grant, yn gyson, cyn ac ar ôl cyhoeddi'r llyfr. Dylai unrhyw newidiadau o ran pris ac argaeledd gael eu nodi'n rheolaidd nes bod y llyfr allan o brint, a'r cyhoeddwr wedi penderfynu peidio â'i adargraffu.

8 Yn achos adargraffiadau neu argraffiadau newydd, rhaid dangos blwyddyn gyhoeddi'r adargraffiad neu'r argraffiad newydd yn glir.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

9 Rhaid i'r awdur dderbyn cytundeb gan y cyhoeddwr, a'i lofnodi. Dylai'r breindal gydymffurfio â'r telerau masnachol arferol a dylid ei dalu yn rheolaidd. Rhaid anfon datganiadau ariannol at yr awdur o leiaf unwaith bob blwyddyn.

10 Dylid nodi nifer y copïau a gyhoeddir ar y ffurflen hawlio.

11 Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i hawlio hyd at bedwar copi o'r llyfr o stoc y cyhoeddwr yn y Ganolfan Ddosbarthu at ddibenion cloriannu.

12 Yn achos llyfrau a gyhoeddir gan gyhoeddwyr nad ydynt yn argraffwyr, rhaid i gyhoeddwyr ddarparu anfonebau am y gwaith argraffu a rhwymo a wnaed. Ceidw Cyngor Lyfrau Cymru'r hawl i ofyn am unrhyw dystiolaeth berthnasol arall.

13 Cymerir safon y golygu a'r dylunio cyffredinol i ystyriaeth wrth bennu'r grant terfynol. Gellir gostwng y grant mewn achosion lle bernir bod y golygu neu'r dylunio cyffredinol yn ddiffygiol.

14 Os na chydymffurfir â'r amodau perthnasol, gall Cyngor Llyfrau Cymru fynnu fod y derbynnydd yn dychwelyd y cyfan neu ran o unrhyw grant a allai fod wedi cael ei dalu.

15 Mae'n ofynnol hysbysu'r Cyngor Llyfrau am unrhyw arian a geir o ffynonellau eraill tuag at gyhoeddi llyfr grant, naill ai ar y ffurflen gais neu'r ffurflen hawlio.

16 Rhaid i bob llyfr sy'n derbyn grant fod ar gael drwy'r Ganolfan Ddosbarthu ac ar delerau Cyngor Llyfrau Cymru. Dylai'r llyfrau fod ar gael i lyfrwerthwyr ar y telerau masnachu arferol (h.y. lleiafswm o 33.33% o ddisgownt) oni bai y cytunir fel arall.

17 Rhaid i lyfrau sy'n derbyn cymorth grant gael eu hanfon i Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau cyn neu ar yr un pryd ag y byddant ar gael trwy ddulliau eraill i unrhyw ddosbarthwr neu werthwr.

18 Os cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg o lyfr, a bod un ohonynt wedi derbyn grant cyhoeddi, yna mae'n amod bod y ddau fersiwn ar gael trwy'r Ganolfan Ddosbarthu yn unol â'r telerau a nodir yn amodau 16 a 17.

19 Mae'n amod y dylai llyfrau grant fod mewn print ac ar gael yn y Ganolfan Ddosbarthu am o leiaf flwyddyn ar ôl eu cyhoeddi. Disgwylir i'r rhediad cyntaf fod yn ddigonol i gyrraedd disgwyliadau'r farchnad am o leiaf dri mis ar ôl cyhoeddi. Os bydd llyfr yn mynd allan o brint cyn pen blwyddyn, a'r cyhoeddwr yn anfodlon adargraffu, bydd y Cyngor yn gallu hawlio ad-daliad o hyd at £1,000 y llyfr. (Eithrir cydargraffiadau rhyngwladol a llyfrau penodol dymhorol, megis rhai llyfrau Nadolig.)

20 Yn achos llyfrau grant, mae'n amod na ddylid gostwng pris gwerthu'r llyfr yn sylweddol (megis mewn arwerthiant hanner pris) am gyfnod o ddeunaw mis ar ôl ei gyhoeddi. (Nid yw hyn yn rhwystro cyhoeddwr rhag cael 'cynigion arbennig' neu ostyngiadau eraill er mwyn hyrwyddo llyfrau.)

21 Rhaid i bob cyhoeddwr ddarparu ffigurau gwerthiant ar gyfer pob teitl am gyfnod o hyd at dair blynedd o'r dyddiad cyhoeddi.

22 Mae'r cyhoeddwr ar ei ran ei hun (ac eraill) yn cyfamodi gyda Chyngor Llyfrau Cymru a'i olynwyr y bydd ef ar bob adeg wedi hyn yn rhyddarbed ac yn indemnio Cyngor Llyfrau Cymru a'i eiddo rhag pob achos, cost, hawliad a chais a gyfyd yn sgil torri unrhyw gyfraith gwlad.

23 Mae disgwyl i'r Cyhoeddwyr wneud ac ysgwyddo'r gost am waith marchnata sylfaenol y gyfrol. Golyga hyn: drefnu a thalu am bresenoldeb eu staff eu hunain a'r awdur/golygydd mewn digwyddiad; hysbysebu sylfaenol mewn papurau bro ayyb.; argraffu



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

gwahoddiadau, posteri (yn enwedig yn achos argraffwyr-gyhoeddwyr); gwneud datganiadau i'r wasg a gweinyddu sylw FB a Thrydar.

24 Disgwylir i lyfr a anelir at ddysgwyr sy'n derbyn grant gan y Cyngor gydymffurfio â safonau iaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Felly, rhaid i'r llyfrau fynd trwy Dim Golygyddol CLLC i'w golygu i'r safonau hynny, yn ogystal a'u prawf ddarllen. O fynd trwy'r broses hon bydd y llyfr yn gallu dwyn brand cyfres Amdani a chael ei hyrwyddo trwy rwydwaith y Ganolfan. Dylai'r cyhoeddwr ymgynghori â Thîm Dylunio CLLC er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn cydymffurfio â'r gyfres.

25 Disgwylir i bob llyfr gwreiddiol sy'n derbyn grant gan y Cyngor gael ei gyhoeddi fel e-lyfr yn ogystal a'i osod ar ffolio.cymru ar yr un pryd a'r cyhoeddiad papur neu o fewn chwe mis, fan bellaf.

Ceir ffurflenni cais a gwybodaeth bellach oddi wrth:

Dr Lynne Williams

Adran Datblygu Cyhoeddi

Cyngor Llyfrau Cymru

Castell Brychan

Aberystwyth

Ceredigion, SY23 2JB

Ffôn: 01970 629554

E-bost: grantiau.cymraeg@llyfrau.cymru

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG /
AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government